



HAMDDEN CYMUNEDOL LLAWLYFR COGINIO IR ARDDANGOSWR



☎ 01792 635415

www.abertawe.gov.uk/communitiybuildings

Sut i ddefnyddio.....

Dyluniwyd y system Chop & Change® i gael ei osod gan y defnyddiwr yn unol â'i ddewis o gynllun a thasg gan ddefnyddio amrywiaeth o fodiwlau ymgynwidiol. Gellir ei ddefnyddio fel ardal waith teithiol neu wedi'i osod yn barhaol.

Mae'r brif uned, sy'n cynnwys y gwaith plymio, yn dod mewn dau faint ar hyn o bryd; maint dwbl (1300mm o led) neu faint triphlyg (1900mm o led), yn berthnasol i'r nifer o fodiwlau Chop & Change® y gallant gynnwys o ran lled. Mae'r holl fodiwlau ar olwynion neu wedi'u dylunio i gael eu storio a'u cludo ar/o fewn y modiwlau ag olwynion.

Mae pob maint yn cynnwys bwrdd paratoi/coginio i gyd-fynd ag ef y gellir ei godi a'i lithro ar ben y brif uned er mwyn eu storio neu eu cludo gyda'i gilydd (gweler yr enghraifft ar y dde). Mae'r bwrdd yn dyblu'r ardal waith a gellir ei osod mewn amrywiaeth o ffyrdd.

GOFYNION GOSOD

Prif uned: 1310mm o led x 650mm o ddyfnder x 910mm o uchder
Uned pentan: 1400mm o led x 650mm o ddyfnder x 910mm o uchder
Uned ffwrn: 1200mm o uchder x 750mm o ddyfnder
Uned Microdon: 1200mm o uchder x 750mm o ddyfnder

Gofynion trydanol:

Pentan anwythol 2 gylch - 2 uned	2 plwg x 13amp	3100w x 2
Pwmp dŵr trydanol	1 plwg x 13amp	Pwmp suddadwy 12v
Microdon	1 plwg x 13amp	800w
Ffwrn	1 plwg x 13amp	3.68kw
Oergell	1 plwg x 13amp	530w

GOSOD YR UNEDAU

Mae angen dau berson a fan er mwyn cludo a symud yr unedau.

Ar ôl eu gosod yn eu lle, gallwch glou olwynion y brif uned er sefydlogrwydd, tynnu'r bwrdd a'i roi yn ei le, ac yna ei lefelu gan ddefnyddio'r traed addasu uchder.

CYFLENWAD DŴR TEITHIOL

Mae gan y brif uned yr holl waith plymio angenrheidiol ar gyfer defnydd teithiol neu barhaol ac yn syml, mae angen ei gysylltu â chyflenwad dŵr ffres a phŵer os yw'n berthnasol.

System ddŵr wedi'i bwmpio teithiol

Cyflenwad dŵr un tymheredd wedi'i bwmpio gan ddefnyddio blychau dŵr a gwastraff.

1. Dechreuwch trwy lenwi'r blwch dŵr ffres neu dewch â blwch dŵr ffres llawn (uchafswm tymheredd 60C) a'i roi yn ei le gan ddefnyddio troli.
2. Gosodwch y bibell derbyn dŵr ffres wedi'i gysylltu â'r pwmp suddadwy i mewn i'r blwch dŵr gan sicrhau ei bod yn cyrraedd y gwaelod er mwyn ei atal rhag tynnu aer i mewn.
3. Gosodwch y blwch dŵr gwag o dan yr allfa gwastraff o'r brif uned.
4. Cysylltwch y wifren drydan sy'n dod o'r brif uned drwy'r plwg safonol a gyflenwyd.
5. Unwaith y bydd y pŵer ymlaen, a'r tap wedi'i ddiffodd, byddwch yn clywed y pwmp yn cynyddu'r pwysedd. Agorwch y tap(iau) i adael aer allan o'r system. Bydd y llif dŵr yn poeri ac yn tasgu i ddechrau ac yna'n llifo'n normal. Os bydd y pwmp yn parhau i redeg ar ôl cau'r tap, yna addaswch y switsh pwysedd trwy droi'r deial yn glocwedd neu'n wrthglocwedd.

GOSOD YR ARDAL WAITH

Mae gosod yr uned a'r bwrdd yn cymryd munudau gan fod yr holl arwynebau gwaith, sinciau ac ategolion bachog yn cwmpo i'w lleoedd.

Mae arwynebau paratoi'r brif uned yn ffitio yn ein ciwbiau rheseli, sydd hefyd yn cynnwys hambyrddau gastronom 1:1.

Os oes silff gweini (opsiynol) yn cael ei ddefnyddio, yna dylech ddadwneud y sgriwiau isaf ar y ddau ochr gan ddefnyddio Allwedd Allen Rhif 4, a chodwch y silff 90 gradd. Ail-osodwch y ddwy sgriw, gan gloi'r cownter yn ei le. Mae angen dau berson ar y silff mwy (uned driphlyg).

Mae'r holl offer trydanol yn eitemau unigol gyda phlygiau safonol.

PANELI BRANDIO/ADDURNIADOL

Mae'r paneli'n cael eu hargraffu ar foamex ac yn cael eu gosod â sribedi magnetig gludiog. Maent yn dod mewn un lliw yn gyffredinol ond maent ar gael wedi'u hargraffu â brand am gost ychwanegol. Maent yn cael eu gosod a'u newid drwy osod y magnetau ar y paneli ger y magnetau ar yr uned fel bod y magnetau'n cwrdd. Maent yn hawdd i'w tynnu drwy dynnu un gornel yn ofalus nes iddynt ddatgysylltu.

Fel rheol, rydym yn argymhell eich bod yn tynnu'r paneli brandio cyn symud yr unedau er mwyn lleihau unrhyw ddifrod damweiniol.